



# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**DYDDIAD 13 MAWRTH 2024**

## **PWNC**

**CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2024/25**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2024/25**

**RHESYMAU:**

Lluniwyd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2024/25 ac mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn: 01267 224160**

**E-bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

**CRYNODEB GWEITHREDOL  
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD 13 MAWRTH 2024**

**CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2024/25**

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel hwnnw. Mae gan y Bartneriaeth bolisi hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC.

Cyflwynwyd Holiadur Gofynion Hyfforddiant y Bartneriaeth i bob aelod o'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor ym mis Rhagfyr 2023, ac fe aseswyd yr ymatebion a gafwyd yn yr holiaduron a gwblhawyd wrth baratoi'r cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth ar gyfer 2024/25.

Lluniwyd y cynllun hyfforddiant hwn i ategu'r hyfforddiant Awdurdodau Cyfansoddol cyfredol, a bydd yn berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, gellid ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, os yw'n berthnasol.

Bydd sesiynau hyfforddi 2024/25 yn cael eu cynnal bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau a ganlyn:

- Gwybodaeth am Gynnyrch a Ddiogelwch Seibr
- Polisiau
- Buddsoddi Cyfrifol
- Deall y Farchnad a Gofynion Rheoleiddio

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb <b>OES</b>	Cyfreithiol <b>DIM</b>	Cyllid <b>DIM</b>	Materion Rheoli Risg <b>DIM</b>	Goblygiadau Staffio <b>DIM</b>	Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd <b>DIM</b>
<b>Polisi</b> Lluniwyd cynllun hyfforddiant a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.					

## YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

<b>Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD</b>		
Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN